ROBERTS, JOHN ('Siôn Lleyn'; 1749 - 1817), bardd, athro, ac arloesydd crefyddol

Enw: John Roberts
Ffugenw: Siôn Lleyn
Dyddiad geni: 1749
Dyddiad marw: 1817
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd, athro, ac arloesydd crefyddol
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg; Barddoniaeth
Awdur: Robert (Bob) Owen

Ganwyd yn Chwilog Bach, Llanystumdwy. Amlygodd dalent yn gynnar yn ei oes a chyhoeddodd gerdd ar 'Farn Duw' cyn iddo symud o Eifionydd i Lŷn. Ymddengys ei fod yn ddisgybl gohebol i David Thomas ('Dafydd Ddu Eryri') ac yn *Cyhoeddiadau Cymdeithas y Gwyneddigion*, 1801, ceir 'Awdyl' o'i waith. Tua 1802 cyhoeddodd *Marwnad ... Robert Roberts, Clynnog*, ac, yn 1815, *Caniadau Newyddion.*

Symudodd i Bwllheli, a bu'n athro ysgol yno; efe oedd prif sefydlydd capel (Methodistiaid Calfinaidd) Pen-y-mownt yn y dref honno ac ysgol Sul a ddaeth yn llewyrchus cyn cychwyniad ysgolion Sul Robert Raikes a Thomas Charles. Ceir peth o'i waith yn *Corph y Gaingc* David Thomas ('Dafydd Ddu Eryri'); gweler hefyd *Adgof Uwch Anghof* (John Jones, 'Myrddin Fardd') a'r 'Myrddin Fardd' MSS. yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Ysgrifennodd rai emynau hefyd.

Bu farw 7 Mai 1817 a chladdwyd ef yn Dyneio.

Awdur

Robert (Bob) Owen, (1885 - 1962)

Ffynonellau

Robert Owen, 'Enwogion Sir Gaernarfon' ac 'Arloeswyr Sir Gaernarfon' - dau draethawd (heb eu cyhoeddi)

Trysorfa Ysprydol yn cynnwys amrywiaeth o bethau ar amcan crefyddol, yn athrawiaethol, yn annogaethol, yn hanesiol, &c., ynghyd ag ychydig farddoniaeth, i, 63, 265, 363

Cymru (O.M.E.), Mai 1895

Gweithiau

Gwyneddigion, *Cyhoeddiadau Cymdeithas y Gwyneddigion, yn Llundain, am y flwyddyn, 1800*(Llundain 1801)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18813249

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Owen, R. (., (1953). ROBERTS, JOHN ('Siôn Lleyn'; 1749 - 1817), bardd, athro, ac arloesydd crefyddol. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ROBE-JOH-1749

Copïo ir Clipfwrdd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government